y Goleuad

EGLWYS BRESBYTERAIDD CYMRU · GOLEUNI Y BYWYD

CYFROL CXXXVIII RHIF 7 DYDD GWENER, CHWEFROR 12, 2010 Pris 40c

Rhai Argraffiadau Llywydd Y Gymanfa Gyffredinol

Y Barchedig GWENDA RICHARDS

Daeth y pedwar mis diwethaf â bendithion dirifedi i'm rhan wrth gyflawni rhai o'm dyletswyddau fel Llywydd y Gymanfa Gyffredinol. Rwyf wedi teithio llawer i bob rhan o Gymru a thu draw ac wedi cyfarfod â phobl ddiddorol dros ben ynghyd â gwneud llawer o ffrindiau newydd.

Wrth edrych yn ôl ar y cyfnod hwn erys sawl digwyddiad yn fyw iawn yn y cof. Un o'r digwyddiadau hynny fu fy ymweliad â dinas Leiden yn yr Iseldiroedd ym mis Medi. Mynd yno ddaru mi hefo pedwar aelod arall o'r Cyfundeb, i gynrychioli'r Enwad yng nghyfarfod blynyddol Pwyllgor CWM Ewrop. Uchafbwynt yr ymweliad fu ymweld â'r Tŷ Cenhadol yn Amsterdam a chael cyfarfod â rhai o'r gweithwyr ifanc yno a phrofi gwefr eu brwdfrydedd yn y gwaith. Er inni dreulio peth amser yn pwyllgora, cawsom gyfle hefyd i gyd-addoli ac i gymdeithasu, a bu hynny'n brofiad gwerthfawr. Bu gwrando ar Geejse Werkman yn rhannu peth o'i phrofiad yn gweithio ymhlith mewnfudwyr yn yr Iseldiroedd yn ddirdynnol, a hithau'n pwysleisio pa mor bwysig yw gweld Cristnogion yn gweithio yn eu cymunedau ac yn 'gwneud gwahaniaeth' ym mywyd aelodau difreintiedig ein cymdeithas.

Bu'n hyfryd mynychu Penwythnos Cymorth Cristnogol yn Nhrefeca ym mis Hydref. Thema'r gynhadledd eleni oedd 'Cerdded yn eu Sgidia' a phrofiad difrifol iawn fu gwrando ar Jeff Williams a'i gydweithwyr, Tom Defis ac Anna Jane Evans, yn rhannu eu gobeithion a'u pryderon am waith Cymorth Cristnogol yn rhai o wledydd tlotaf y byd.

Bûm yn ymweld â'r Sasiwn yn y tair talaith yn eu tro, ac unwaith eto, mwynhau'r cymdeithasu a gwerthfawrogi'r ddarpariaeth hael ar ein cyfer fel ymwelwyr. Er ei bod yn mynd yn anos yn flynyddol i gynnal Sasiwn mewn gwahanol ardaloedd, rhaid diolch a gwerthfawrogi llafur diflino'r ychydig sydd am sicrhau bod ymweliadau'r Sasiwn bob amser yn bleserus ac yn effeithiol.

Carwn eich tywys i oedfa hwyrol y Sasiwn yn y De a gynhaliwyd yn eglwys Y Gopa, Pontardulais, a'r Parchedig J. E. Wynne Davies wedi ei wahodd i ddarlithio ar Dafydd William, yr emynydd o Llandeilo Fach. Roedd yr hanesydd ar ei ora' y noson honno, a chafwyd oedfa fawr yn ei gwmni. Carwn ddiolch iddo am ddarlith, os nad pregeth wir, a'm cododd i'r uchelderau; profiad prin bellach o bulpudau'r Gymru Gyfoes.

Braf oedd bod yn Ascot, yng nghwmni rhai o'r cyfeillion a gyfarfûm ddeufis ynghynt yn Leiden, a mwynhau gwledd yn eu cwmni. Na, chefais i ddim cyfle i brynu het newydd a mynd i'r rasus! Yno roedd Ymddiriedolwyr CWM yn cyfarfod, a finna

yno'r noson honno o ran cwrteisi, gan mai ein Cyfundeb ni ynghyd ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg oedd yn cynnal y gweithgareddau'r noson honno.

Ac yna, ganol Rhagfyr, bûm yn bresennol yng nghyfarfod Eglwysi Cyfamodol Cymru a gyfarfu yn Y Fenni, lle bu trafod ar y ffordd orau sicrhau mwy o undeb rhwng yr enwadau. Siwrne digon araf fu hi hyd yma, ond rhaid parhau ymlaen mewn gobaith a thrwy weddi, gan gofio nad yw ein llafur yn yr Arglwydd byth yn ofer. Cafwyd cyflwyniad gwefreiddiol gan y Parchedig Gethin Abraham-Williams wrth iddo olrhain y daith am undeb hyd yma, a diolchaf iddo am baratoi mor drwyadl ar ein cyfer, a chyflwyno'r neges mor effeithiol.

Edrychaf ymlaen at y misoedd nesaf a rydd fwy o gyfle i mi deithio a chyfarfod â mwy o bobl. Yn y cyfamser dymunaf eto Flwyddyn Newydd llawn bendithion i ddarllenwyr y *Goleuad*.

Golwg ar y Byd 2010

Cynhadledd wyliau yw Golwg ar y Byd, yn cael ei threfnu gan CWM Rhanbarth Ewrop, Awst 7-13, 2010. Mae'r gynhadledd yn gyfle i gyfarfod â'r eglwys fyd-eang a dysgu mwy am genhadaeth.

Yn 2010 bydd yr addoliad o dan arweiniad "Siyaya," grŵp o bobl ifanc o Ganolfan JL ZWANE, Guguleto, De Affrica. Mae aelodau'r grŵp wedi teithio i sawl gwlad gyda'u cerddoriaeth a'u haddoliad bywiog, gan gynnwys ymweliad yn 2008 i Washington DC gyda'r Archesgob Njongonkulu Ndungane o Cape Town. Y Parchg Elizabeth Joy, Ysgrifennydd Gweithredol Addysg mewn Cenhadaeth CWM fydd yn arwain yr addoliad gyda'r nos a bydd y Parch Shou-Hui Chung, partner cenhadol o Daiwan yn arwain ein cyfarfodydd gweddi cynnar – tîm arwain addoliad sydd yn fyd-eang yng ngwir ystyr y gair!

Bydd y Parchg Ddr Janet Wootton yn ysbrydoli'r gynhadledd wrth drafod y thema "Dal Goleuni Crist." Mae Janet yn Gyfarwyddwr Astudiaethau gyda'r Congregational Federation, yn adnabyddus fel awdur emynau, fel diwinydd ac awdur llyfrau. Bydd y thema yn canolbwyntio ar y berthynas rhwng cenhadaeth ac addoliad – sut mae addoliad yn ysbrydoli'r eglwys i genhadu ac fel mae cenhadu yn bwydo addoliad yr eglwys.

Mae'r gynhadledd yn darparu digon o weithgareddau ar gyfer pobl o bob oed. Bob bore darperir rhaglen fywiog ar gyfer plant a phobl ifanc. Yn y prynhawn gellir defnyddio'r adnoddau gweithgareddau awyr agored, neu deithio o amgylch yr ardal, mynychu gweithdai, a gyda'r nos ceir adloniant ar gyfer pob oed.

Lleoliad y gynhadledd yw'r Pioneer Centre yn Cleobury Mortimer, ger Kidderminster. Mae gan y Ganolfan adnoddau gweithgareddau awyr agored ardderchog ar gyfer pob oed, gan gynnwys abseilio, nofio, dringo

ac ymladd cleddyfau. Darperir llety yn bennaf mewn ystafelloedd en-suite ar gyfer 2, 3 a 4 o bobl.

Am fwy o fanylion cysylltwch â CWM Europe, Colin Sanders Innovation Centre, Mewburn Road, Banbury, Oxfordshire, OX16 9PA (dalier sylw: cyfeiriad newydd) neu â Swyddfa Ganolog Eglwys Bresbyteraidd Cymru.